





Yr atgyfodiad. Mae Iesu'n fyw!

Mathew 28: 1-15; Marc 16: 1-20; Luc 24: 1-47; Ioan 20: 1-29



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 28: 1-15; Marc 16: 1-20; Luc 24: 1-47; Ioan 20: 1-29		
1 Yn gynnar fore Sul, pan oedd y Saboth Iddewig drosodd, a hithau'n dechrau gwawrio, dyma Mair Magdalen, Mair mam Iago a Salome yn mynd i edrych ar y bedd. Roedden nhw wedi prynu perlyisiau ar gyfer eneinio corff Iesu.		
2 Yn sydyn roedd daeargryn mawr. Dyma angel yr Arglwydd yn dod i lawr o'r nefoedd a rholio'r garreg oddi ar geg y bedd ac eistedd arni. Roedd y milwyr Rhufeinig yn crynu gan ofn a dyma nhw'n llewygu.		
3 Roedd y gwragedd wedi dychryn. Wrth gamu i mewn i'r bedd fe welon nhw ei fod yn wag.		

-
- 4 Roedd dyn ifanc yn gwisgo mantell wen yn eistedd yno ar yr ochr dde. "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Dych chi ddim yn cofio beth ddwedodd e pan oedd gyda chi yn Galilea? Dwedodd y byddai e, Mab y Dyn, yn cael ei drosglwyddo i afael dynion pechadurus fyddai'n ei groeshoelio; ond yna ddeuddydd wedyn byddai e'n dod yn ôl yn fyw."



-
- 5 Dyma'r gwragedd yn mynd allan ac yn rhedeg oddi wrth y bedd, yn crynu drwyddynt ac mewn dryswch. Dyma nhw'n dweud beth oedd wedi digwydd wrth yr unarddeg disgybl a phawb arall.



-
- 6 Doedd yr apostolion ddim yn eu credu nhw — roedden nhw'n meddwl fod y stori yn nonsens llwyr. Ond dyma Pedr a Ioan yn mynd at y bedd i edrych.



-
- 7 Ioan gyrrhaeddodd y bedd gyntaf. Ond aeth e ddim i mewn.



-
- 8 Yna dyma Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r bedd. Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd yno.



-
- 9 Gwelodd hefyd y cadach oedd wedi bod am wyneb Iesu, ond roedd hwnnw wedi ei blygu a'i osod o'r neilltu ar wahân i'r stribedi lliain. Roedd o'n methu'n lân a deall beth oedd wedi digwydd.



-
- 10 Yna, yn y diwedd, dyma'r disgybl arall (oedd wedi cyrraedd y bedd gyntaf) yn mynd i mewn hefyd. Pan welodd e'r cwbl, credodd. (Doedden nhw ddim eto wedi deall fod yr ysgrifau sanctaidd yn dweud fod rhaid i Iesu ddod yn ôl yn fyw.)



-
- 11 Safodd Mair wrth ymyl y bedd yn crïo.



-
- 12 Plygodd i lawr i edrych i mewn i'r bedd a gweld dau angel mewn dillad gwyn yn eistedd lle roedd corff Iesu wedi cael ei roi i orwedd — un wrth y pen a'r llall wrth y traed. Dyma nhw'n gofyn i Mair, "Wraig annwyl, pam rwy't ti'n crïo?"



-
- 13 “Maen nhw wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd,” atebodd, “a dw i ddim yn gwybod ble maen nhw wedi mynd ag e”.



-
- 14 Dyna pryd y trodd hi rownd a gweld rhywun yn sefyll o'i blaen. Iesu oedd yno, ond doedd hi ddim yn sylweddoli mai Iesu oedd e. “Wraig annwyl,” meddai Iesu wrthi, “pam rwyd ti'n crïo? Am bwy rwyd ti'n chwilio?” Roedd hi'n meddwl mai'r garddwr oedd e, a dwedodd, “Syr, os mai ti sydd wedi ei symud, dywed lle rwyd ti wedi ei roi e, a bydda i'n mynd i'w nôl e.”



-
- 15 Yna dyma Iesu'n dweud, “Mair.”



-
- 16 Trodd ato, ac meddai yn Hebraeg, “Rabbwni!” (sy'n golygu ‘Athro’).



-
- 17 Dyma Iesu'n dweud wrthi, “Paid dal gafael ynof fi. Dw i ddim yn mynd i fyny at y Tad eto. Dos at fy mrodyr i a dweud wrthyn nhw, ‘Dw i'n mynd at fy Nhad a'm Duw, eich Tad a'ch Duw chi hefyd.’”



-
- 18 Yna aeth Mair Magdalen at y disgyblion a dweud: "Dw i wedi gweld yr Arglwydd!" A dwedodd wrthyn nhw beth oedd e wedi ei ddweud wrthi.



-
- 19 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

-
- 20

